Prentisiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Lefel 2** (Cymru)

HYD **13** MIS

Bydd Prentisiaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 yn eich galluogi i ddatblygu a dangos eich gwybodaeth, dealltwriaeth, ymddygiad, sgiliau ac ymarfer mewn lleoliad iechyd a gofal cymdeithasol. Yn benodol, byddwch yn gallu dangos eich bod yn deall ac yn arfer yr egwyddorion a'r gwerthoedd sy'n sylfaen i iechyd a gofal cymdeithasol.

Bydd hyn yn cynnwys dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, ymwybyddiaeth o bolisïau allweddol a sut i gymhwyso ystod o dechnegau datrys problemau.

Mae hwn yn gymhwyster cymharol newydd i unigolion sy'n gweithio yn y Sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Mae'n gyflwyniad eang i'r diwydiant i'ch cefnogi i symud ymlaen i gyflogaeth neu addysg a hyfforddiant pellach.

Sut rydym yn darparu'r rhaglen hon

Caiff y rhaglen hon ei darparu ar sail un i un yn eich gweithle gan eich Rheolwr Datblygiad Personol penodedig eich hun.

Byddant yn cwrdd â chi bob mis (wyneb yn wyneb neu'n rhithwir) i ddarparu addysg a hyfforddiant i'ch helpu i ddatblygu gwybodaeth a sgiliau newydd a'ch tywys trwy'r rhaglen.

Yna byddant yn asesu eich cymhwysedd trwy arsylwi arnoch yn rhoi'r sgiliau newydd ar waith yn y gweithle a'ch helpu i ddatblygu portffolio o dystiolaeth i brofi eich bod wedi cwrdd â gofynion y Brentisiaeth.

Cymwysterau sydd wedi'u cynnwys yn y Brentisiaeth hon

Ar ôl cwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddwch yn cyflawni'r cymwysterau canlynol:

- Prentisiaeth Lefel 2 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Tystysgrif Lefel 2 City & Guilds mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Craidd
- Tystysgrif Lefel 2 City & Guilds mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol: Ymarfer (Oedolion)
- Sgiliau Hanfodol Cymhwyso Rhif Lefel 1 (os oes angen)
- Sgiliau Hanfodol mewn Cyfathrebu Lefel 1 (os oes angen)

Mae'r rhaglen wedi'i rhannu'n ddwy elfen - Craidd ac Ymarfer

Craidd

Mae'r elfen hon wedi'i hanelu at y rhai sy'n cael eu cyflogi yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd neu'n chwilio am waith yn y sector, ac mae'n ymwneud â'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth 'greiddiol' o'r fframwaith sefydlu iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n rhaid cwblhau'r rhain ar gyfer pob un o'r cymwysterau Ymarfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2 a 3.

Bydd elfen Graidd y cymhwyster yn cael ei darparu dros saith sesiwn. Bydd pob sesiwn yn para rhwng 1 - 3 awr gydag adnoddau pwrpasol i'w cefnogi. Mae elfen graidd y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn cynnwys 5 uned orfodol a fydd yn eich helpu i ddeall theori a deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â'ch gwaith.

Byddwch yn cwblhau llyfr gwaith yn ogystal â log myfyriol sy'n gysylltiedig â'r dysgu ar gyfer pob sesiwn. Bydd eich Rheolwr Datblygiad Personol yn eich cefnogi i gyflawni gofynion yr elfen graidd a pharatoi ar gyfer elfen ymarferol y cymhwyster.

Mae'r pum uned orfodol ar gyfer yr elfen Graidd fel a ganlyn:

Uned 001 - Egwyddorion a gwerthoedd iechyd a gofal cymdeithasol

- Gwybod sut mae deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a'r Cod Ymddygiad ac Ymarfer yn sail i iechyd a gofal cymdeithasol a chefnogaeth i unigolion
- Gwybod sut mae dulliau sy'n seiliedig ar hawliau yn gysylltiedig ag iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwybod sut i ddefnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn
- Gwybod sut i hyrwyddo Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Gwybod sut mae cymryd risgiau cadarnhaol yn cefnogi llesiant, llais, dewis a rheolaeth
- Gwybod sut i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol ag unigolion, eu teuluoedd a'u gofalwyr yng nghyd-destun ffiniau proffesiynol
- Deall pwysigrwydd cyfathrebu effeithiol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Deall pwysigrwydd iaith a diwylliant Cymraeg i unigolion a gofalwyr
- Gwybod sut y gellir defnyddio dulliau cadarnhaol i leihau arferion cyfyngol mewn gofal cymdeithasol
- Gwybod sut mae newid yn effeithio ar unigolion
- Gwybod sut y gall eich credoau, gwerthoedd a'ch profiadau bywyd eich hun effeithio ar agwedd ac ymddygiad tuag at unigolion a gofalwyr

Uned 003 - Iechyd a lles (oedolion)

- Deall yr hyn mae lles yn ei olygu yng nghyd-destun iechyd a gofal cymdeithasol
- Deall y ffactorau sy'n effeithio ar iechyd a lles unigolion
- Gwybod sut i gefnogi unigolion gyda'u gofal personol a rheoli ymataliaeth
- Gwybod beth yw ystyr arfer da mewn perthynas â gofal man gwasgu
- Gwybod sut i gefnogi unigolion i ofalu am eu dannedd a'u ceg
- Deall pwysigrwydd gofal traed ac iechyd a lles unigolion
- Deall y rolau a'r cyfrifoldebau sy'n gysylltiedig â rhoi meddyginiaeth mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol
- Deall pwysigrwydd maeth a hydradiad i iechyd a lles unigolion
- Deall y ffactorau sy'n effeithio ar ofal diwedd oes
- Gwybod sut y gellir defnyddio technoleg gynorthwyol i gefnogi iechyd a lles unigolion
- Gwybod sut y gall colli synhwyrau effeithio ar iechyd a lles unigolion
- Gwybod sut y gall byw gyda dementia effeithio ar iechyd a lles unigolion
- Gwybod sut y gall salwch meddwl effeithio ar iechyd a lles unigolion
- Gwybod sut y gall camddefnyddio sylweddau effeithio ar iechyd a lles unigolion

Uned 005 - Ymarfer proffesiynol fel gweithiwr iechyd a gofal cymdeithasol

- Deall rôl, cyfrifoldebau ac atebolrwydd gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwybod sut i ddatblygu a chynnal partneriaeth effeithiol gan weithio gydag eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwybod sut mae gweithio'n effeithiol fel tîm yn cefnogi arfer da mewn iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwybod sut i drin gwybodaeth
- Deall pwysigrwydd cynnal proffesiwn gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol
- Gwybod sut mae datblygiad proffesiynol parhaus yn cyfrannu at ymarfer proffesiynol

Uned 006 - Diogelu unigolion

- Deall pwrpas deddfwriaeth, polisïau cenedlaethol a Chodau Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol mewn perthynas â diogelu unigolion
- Gwybod sut i weithio mewn ffyrdd sy'n amddiffyn unigolion rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod
- Deall y ffactorau, y sefyllfaoedd a'r gweithredoedd a allai arwain neu gyfrannu at niwed, cam-drin neu esgeulustod
- Gwybod sut i ymateb, cofnodi ac adrodd am bryderon, datgeliadau neu honiadau sy'n ymwneud â diogelu

Uned 007 - Iechyd a diogelwch ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

- Gwybod sut i fodloni gofynion deddfwriaethol ar gyfer iechyd a diogelwch yn y gweithle
- Gwybod sut mae asesiadau risg yn cael eu defnyddio i gefnogi iechyd a diogelwch yn y gweithle
- Gwybod sut i hyrwyddo diogelwch tân mewn lleoliadau gwaith
- Deall egwyddorion allweddol yn ymwneud â symud a thrin a symud a lleoli
- Deall y prif lwybrau sy'n arwain at haint a sut i atal lledaeniad heintiau yn y gweithle
- Gwybod sut i weithredu mesurau diogelwch bwyd
- Gwybod sut i storio, defnyddio a gwaredu ar sylweddau peryglus mewn modd diogel
- Gwybod sut i sicrhau diogelwch yn y lleoliad gwaith
- Gwybod sut i reoli straen

Er mwyn cyflawni elfen Graidd y cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lefel 2, mae'n rhaid i chi lwyddo yn y canlynol:

- 3 asesiad a osodir yn allanol yn seiliedig ar sefyllfaoedd

Bydd gennych 60 munud i gwblhau pob asesiad ar sail sefyllfa benodol a rhaid i chi gyflawni 75% i lwyddo ym mhob un. Byddwch hefyd yn cael cyfle i ymarfer yr asesiadau wrth baratoi'r dasg fyw.

- 1 prawf amlddewis wedi'i osod yn allanol. Bydd gennych 1 awr a 15 munud i ateb 45 cwestiwn. Bydd angen i chi gyflawni 75% i lwyddo.

Ymarfer

Bydd yr elfen Ymarferol yn eich galluogi i ddangos y wybodaeth, y sgiliau a'r ymddygiadau sy'n ofynnol gan y sector Iechyd a Gofal Cymdeithasol.

Mae'r cymhwyster yn datblygu eich gallu i gefnogi anghenion iechyd a gofal cymdeithasol oedolion yn ymarferol mewn ystod o leoliadau. Mae cynnwys y cymhwyster hwn yn cydgrynhoi'r wybodaeth a ddysgwyd drwy gyflawni'r cymhwyster Iechyd a Gofal Cymdeithasol Craidd Lefel 2.

Er mwyn cwblhau'r cymhwyster Iechyd a Gofal Lefel 2: Ymarfer (Oedolion), mae'n rhaid i chi gwblhau'r canlynol:

- 1 uned orfodol (14 credyd)
- O leiaf 14 credyd o grŵp dewisol A
- Gellir ennill y 7 credyd sy'n weddill trwy gwblhau unedau yng ngrwpiau dewisol A neu B.

Uned Orfodol	Lefel	CV*	GLH**
Cefnogi ymarfer craidd ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Oedolion)	2	14	65

Grŵp A

Uned	Lefel	CV*	GLH**
Cyfrannu at ofal a chefnogaeth unigolion sy'n byw gartref	2	7	45
Darparu gofal a chefnogaeth i unigolion sy'n byw mewn lleoliadau cartrefi gofal	2	8	45
Cyfrannu at gefnogi unigolion sy'n byw gyda dementia	2	9	45
Cyfrannu at gefnogi unigolion i ddefnyddio technoleg gynorthwyol electronig	2	2	10
Cyfrannu at gefnogi unigolion i gyflawni eu deilliannau ail-alluogi	2	3	20
Cyfrannu at gefnogi unigolion sy'n camddefnyddio sylweddau	2	4	30
Hyrwyddo cefnogaeth i unigolion ag anabledd dysgu a/neu awtistiaeth	3	8	40
Hyrwyddo dulliau cadarnhaol ar gyfer cefnogi ymddygiad	3	6	40
Cefnogi unigolion sy'n byw gyda salwch meddwl	3	7	40
Cefnogi unigolion â nam corfforol	3	4	25
Cefnogi unigolion sydd wedi dioddef niwed i'r ymennydd	3	8	40

Grŵp B

Unit	Level	CV*	GLH**
Cefnogi oedolion sy'n byw gyda diabetes mellitus	2	4	15
Ymateb i adweithiau anaffylactig	2	2	10
Cyflwyniad i brinder anadl ac asthma mewn oedolion	2	2	10
Cefnogi unigolion i reoli ymataliaeth	2	4	15
Cefnogi unigolion i symud a lleoli	2	3	20
Cefnogi unigolion i gynnal symudedd a lleihau'r risg o gwympo	2	2	20
Cyflwyniad i fesuriadau ffisiolegol mewn oedolion	2	3	15
Cynnal profion pwynt gofal	2	3	15
Casglu samplau	2	3	10
Cefnogi unigolion sydd wedi colli synhwyrau	2	3	20
Cefnogi ymarfer diogelwch bwyd mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol	2	2	10
Cefnogi unigolion i reoli poen ac anghysur	2	2	15
Mesur cyfradd llif anadlol brig (PEFR)	2	2	15
Cyflwyniad i ddirywiad acíwt	2	4	25
Darparu cefnogaeth i oedolion sy'n byw gydag epilepsi	3	3	20
Monitro lefelau glwcos yn y gwaed capilari	3	3	15
Cymryd samplau gwaed gwythiennol gan oedolion	3	3	20
Darparu gofal i oedolion sy'n byw gyda chanser	3	4	20
Gofal lliniarol a diwedd oes i oedolion	3	7	35
Cefnogi'r defnydd o feddyginiaeth mewn lleoliadau gofal cymdeithasol	3	5	35
Darparu gofal ar gyfer oedolion gyda chathetrau wrinol ymledol	3	3	20
Darparu gofal a chefnogaeth i oedolion gyda Chlefyd Coronaidd y Galon (CHD)	3	3	20
Cefnogi maeth a hydradiad unigolion sydd â gofynion dietegol arbennig	3	2	20
Darparu gofal a chefnogaeth i oedolion â chyflyrau anadlol cronig	3	3	20
Darparu cefnogaeth i unigolion yn dilyn strôc	3	3	25

**Gwerth credyd **Oriau dysgu dan arweiniad*

I gyflawni elfen Ymarferol y cymhwyster, mae'n rhaid i chi gwblhau'r canlynol ar y lefel ofynnol:

- Portffolio o waith sy'n bodloni gofynion y cymhwyster. Bydd hyn yn cynnwys cynllunio 4 tasg ar wahân sy'n eich galluogi i ddangos sut rydych chi'n gweithio gydag unigolion.

Bydd y gweithgareddau hyn yn cael eu harsylwi gan eich Rheolwr Datblygiad Personol a'u cynllunio gyda'ch rheolwr llinell, ac mae'n rhaid adlewyrchu'r rhain o fewn eich ymarfer.

- Trafodaeth broffesiynol gyda'ch Rheolwr Datblygiad Personol ynglŷn â'ch profiad dysgu a sut yr ydych chi wedi bodloni gofynion y cymhwyster.

t2 group

Gofal, dyna beth rydyn ni'n ei wneud

I gael copi o amlinelliad y cwrs hwn yn Gymraeg, cysylltwch â ni **marketing@t2group.co.uk**

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â ni yn: 029 2079 9133

www.t2group.co.uk info@t2group.co.uk

UNIÓN EUROPEA EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfa Gymdeithasol Ewrop
European Social Fund